

Cronfa Bensiwn Dyfed

Polisi Cynllun yn Talu Gwirfoddol

Mawrth 2025



Cynnwys

Dehongli.....	3
Crynodeb	3
Cyflwyniad	3
Nodau ac Amcanion.....	4
Cefndir	4
Cynllun yn Talu Gorfodol.....	5
Cynllun yn Talu Gwirfoddol	6
Enghreifftiau o Lwfans Blynyddol Taprog	7
Polisi Cronfa Bensiwn.....	8
Aelodau sy'n agosáu at ymddeol	9
Costau	10
Cymeradwyo, Adolygu ac Ymgynghori	10

Dehongli

“Cronfa”
“Yr Awdurdod
Gweinyddu”

Cronfa Bensiwn Dyfed
Cyngor Sir Caerfyrddin

Crynodeb

Mae Cynllun yn Talu yn broses a all ganiatáu i'r Gronfa Bensiwn dalu treth Lwfans Blynnyddol aelod yn rhannol neu'n gyfan, yn gyfnewid am ostyngiad i'w fuddion pensiwn. Mae dau fath o Gynllun yn Talu. Fe'u gelwir Gorfodol a Gwirfoddol, ac mae'r ddogfen hon yn cwmpasu'r ddau.

Cyflwyniad

Cyflwynwyd y Lwfans Blynnyddol yn 2006 a dyma'r swm y gall gwerth cyffredinol buddion pensiwn aelod gynyddu mewn Cyfnod Mewnbwn Pensiwn (sy'n cyd-fynd â'r flwyddyn dreth ar hyn o bryd) cyn cael taliad treth ychwanegol o bosibl. Mewn rhai achosion, mae gan aelodau hawl awtomatig o dan Adran 237B o Ddeddf Cyllid 2004 i ofyn i'r Gronfa dalu'r dreth ar eu rhan a chael gostyngiad cyfatebol i'w buddion pan fyddant yn gadael y cynllun yn gyfnewid am hynny. Mae'r gostyngiad yn cael ei wneud i gyfrif pensiwn yr aelod yn y flwyddyn dreth berthnasol, a bydd yn cael ei gynyddu gyda chwyddiant hyd nes bod y buddion yn cael eu talu. Yr enw ar hyn yw Cynllun yn Talu Gorfodol.

Mewn achosion eraill, gall aelodau ofyn i'r Gronfa dalu'r dreth, ond nid oes hawl o ran hyn o beth ac nid oes yn rhaid i'r Gronfa gytuno i wneud hyn. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau a phan fo'r Gronfa yn cytuno i dalu'r dreth, bydd buddion yr aelod yn cael eu gostwng yn unol â hynny. Mae'r gostyngiad yn cael ei wneud i gyfrif pensiwn yr aelod yn y flwyddyn dreth berthnasol, a bydd yn cael ei gynyddu gyda chwyddiant hyd nes bod y buddion yn cael eu talu. Yr enw ar hyn yw Cynllun yn Talu Gwirfoddol. Ni all aelodau ddefnyddio Cynllun yn Talu ar ôl iddynt gael eu buddion, er y gellir ei ddefnyddio o hyd lle mae'r aelod wedi cymryd ymddeoliad hyblyg ac yn dal i gronni rhagor o fuddion yn y Gronfa, sydd wedyn yn destun treth Lwfans Blynnyddol. Dyma Bolisi Cynllun yn Talu Gwirfoddol y Gronfa Bensiwn, sy'n cael ei reoli gan yr Awdurdod Gweinyddu. Mae'r Polisi yn manylu ar yr amgylchiadau lle bydd cais am Gynllun yn Talu Gwirfoddol yn cael ei dderbyn gan y Gronfa Bensiwn. Mae'r Polisi Cynllun yn Talu Gwirfoddol hwn wedi'i lunio i ddarparu eglurder i aelodau'r Gronfa a hoffai wneud cais am Gynllun yn Talu Gwirfoddol, ac i sicrhau cysondeb o ran dull gweithredu ar draws y Gronfa. Mae'r Rheolwr Pensiynau yn gyfrifol am sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei ddilyn.

Nodau ac Amcanion

Mewn perthynas â gwaith gweinyddu a chyfathrebu'r Gronfa, mae gan yr Awdurdod Gweinyddu nifer o amcanion gan gynnwys:

- Darparu gwasanaeth gweinyddu proffesiynol, rhagweithiol, amserol o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid i randdeiliaid y Gronfa.
- Sicrhau bod y buddion cywir yn cael eu talu i'r bobl gywir, a bod yr incwm cywir yn cael ei gasglu oddi wrth y bobl gywir ar yr adeg gywir.
- Hyrwyddo'r Cynllun fel budd gwerthfawr a darparu digon o wybodaeth fel y gall aelodau wneud penderfyniadau gwybodus am eu buddion.
- Cyfathrebu mewn modd clir a chryno.

Mae cael polisi sy'n nodi'r amgylchiadau lle derbynnir cais am Gynllun yn Talu Gwirfoddol yn cynorthwyo'r Awdurdod Gweinyddu i gyflawni'r amcanion hyn.

Cefndir

Dyma amlinelliad byr o'r Lwfans Blynnyddol a chyfrifoldeb yr aelod yw ceisio cyngor ynghylch y gofynion penodol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Cyllid a Thollau ei Fawrhydi: <https://www.gov.uk/tax-on-your-private-pension/annual-allowance>

Cyflwynwyd y cysyniad o'r Lwfans Blynnyddol o fis Ebrill 2006 o dan Ddeddf Cyllid 2004 a dyma'r swm y gall gwerth cyffredinol buddion pensiwn aelod gynyddu dros Gyfnod Mewnbwn Pensiwn (sy'n cyd-fynd â'r flwyddyn dreth ar hyn o bryd) cyn bod treth yn ddyledus. Y Lwfans Blynnyddol Safonol presennol ar gyfer y rhan fwyaf o bobl yw £60,000, (cynyddodd hyn o £40,000 i £60,000 ar 6 Ebrill 2023) ac os yw'r cynnydd yng ngwerth buddion pensiwn aelod (ei Swm Mewnbwn Pensiwn) yn y flwyddyn dreth berthnasol yn fwy na'r swm hwnnw gallai taliad treth fod yn ddyledus. Gall aelodau'r cynllun gario ymlaen unrhyw lwfans heb ei ddefnyddio o'r tair blynedd flaenorol i wrthbwysu taliad treth posibl. Y Swm Mewnbwn Pensiwn yw'r swm y mae gwerth cyffredinol buddion aelod wedi cynyddu rhwng dechrau a diwedd y flwyddyn dreth. Gallai gweithwyr sy'n ennill cyflogau uwch a'r rhai sydd ag incwm trethadwy sylweddol o ffynonellau eraill (gan gynnwys pensiynau sy'n cael eu talu) fod yn ddarostyngedig i'r Lwfans Blynnyddol Taprog, gan roi Lwfans Blynnyddol iddynt sy'n is na'r Lwfans Blynnyddol Safonol ac a allai fod mor isel â £10,000 (roedd hyn yn £4,000 yn flaenorol ar gyfer y blynnyddoedd treth rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2023 a £10,000 ar gyfer y blynnyddoedd treth rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2020). Mae hyn yn effeithio ar unrhyw un sy'n bodloni'r ddau faen prawf canlynol:

- Yr Incwm Trothwy yw £200,000 neu fwy (£110,000 ar gyfer y blynyddoedd treth rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2020). Mae Incwm Trothwy yn incwm trethadwy ar ôl i gyfraniadau pensiwn gweithiwr gael eu didynnu, ac mae'n cynnwys incwm trethadwy o bob ffynhonnell ac nid cyflog yn unig.
- Mae'r Incwm wedi'i Addasu yn fwy na £260,000 (£240,000 ar gyfer y blynyddoedd treth rhwng 2020 a 2023 a £150,000 ar gyfer y blynyddoedd treth rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2020). Incwm wedi'i Addasu yw Incwm Trothwy ynghyd â Swm Mewnbwn Pensiwn.

Os yw rhywun yn bodloni'r ddau faen prawf, mae ei Lwfans Blynyddol unigol yn cael ei ostwng £1 am bob £2 y mae ei Incwm wedi'i Addasu yn fwy na £260,000. Fodd bynnag, ni ellir gostwng Lwfans Blynyddol Taprog yr aelod yn llai na £10,000. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Cyllid a Thollau ei Fawrhydi:

<https://www.gov.uk/guidance/pension-schemes-work-out-your-tapered-annual-allowance>

Bydd aelodau sydd â buddion 'mynediad hyblyg' yn flaenorol o gynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig ar wahân yn destun i'r Lwfans Blynyddol Pryniant Arian, sef £10,000 ar hyn o bryd (£4,000 oedd hyn o'r blaen ar gyfer y blynyddoedd treth rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2023 a £10,000 ar gyfer y blynyddoedd treth rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2017), ac mae'n rhaid iddynt hysbysu'r Gronfa Bensiwn os yw hyn yn berthnasol gan fod hyn yn lleihau'r Lwfans Blynyddol a ddefnyddir i brofi'r buddion CPLIL. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adran dan y pennawd 'check if you've gone above the money purchase annual allowance' ar wefan CThEF:

<https://www.gov.uk/guidance/work-out-your-allowances-if-youve-flexibly-accessed-your-pension>

Codir tâl ar dreth sy'n fwy na'r Lwfans Blynyddol, a hynny ar gyfradd ymylol yr aelod o ran treth incwm (20%, 40% neu 45% yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn dibynnu ar gyfanswm yr enillion trethadwy) a hynny ar swm y mewnbwn pensiwn sy'n fwy na Lwfans Blynyddol yr Aelod, gan ystyried unrhyw lwfans heb ei ddefnyddio sy'n cael ei gario ymlaen o flynyddoedd blaenorol. Cyfrifoldeb yr aelod yw pennu'r gyfradd dreth a gymhwysir.

Cynllun yn Talu Gorfodol

Os oes gan aelod daliad treth o ganlyniad i dorri'r Lwfans Blynyddol, mae ganddo hawl i drefniant Cynllun yn Talu Gorfodol o'r Gronfa Bensiwn pan fodlonir POB un o'r meini prawf canlynol:

- Mae taliad treth Lwfans Blynyddol yr aelod yn fwy na £2,000, ac

- Mae gan yr aelod Swm Mewnbwn Pensiwn o fewn y CPLIL yng Nghymru a Lloegr sy'n fwy na'r Lwfans Blynnyddol safonol (£60,000 ar hyn o bryd), a
- Gwneir cais di-alw'n-ôl ar gyfer Cynllun yn Talu Gorfodol erbyn 31 Gorffennaf yn y flwyddyn yn dilyn yr un lle cododd y tâl treth (h.y. ar gyfer taliad treth sy'n codi o'r flwyddyn 2022/2023 mae'n rhaid i'r cais ar gyfer Cynllun yn Talu Gorfodol gael ei wneud erbyn 31 Gorffennaf 2024) neu cyn i'r aelod ymddeol, os yw'n gynharach, ac
- Nid yw buddion ymddeoliad llawn yr aelod o'r Gronfa wedi cael eu talu eto.

Pan fydd aelod yn bodloni'r holl feini prawf uchod, mae'n rhaid i'r Gronfa Bensiwn dalu'r dreth i CThEF ar ran yr aelod pan ofynnir iddi wneud hynny ac mae'n rhaid iddi hysbysu'r aelod o'r gostyngiad i'r buddion yn sgil hynny. Ni chaniateir i'r Gronfa godi tâl gweinyddol ar gyfer ceisiadau Cynllun yn Talu Gorfodol. Noder nad oes angen i aelod ofyn i'r Gronfa dalu'r taliad treth yn llawn - gall yr aelod drefnu bod swm is yn cael ei dalu gan Gynllun yn Talu Gorfodol a byddai'n rhaid iddo wneud ei drefniadau ei hun i dalu'r taliad treth sy'n weddill i CThEF. Dylai aelodau gofio na ellir gostwng eu pensiwn o dan lefel eu Isafswm Pensiwn Gwarantedig (GMP), felly efallai na fydd y Gronfa yn gallu talu'r dreth yn llawn os byddai'r gostyngiad cyfatebol i'r buddion yn lleihau'r pensiwn i lefel is na'r GMP.

Ar gyfer Cynllun yn Talu Gorfodol, mae'n rhaid i'r aelod roi gwybod i CThEF y bydd yn defnyddio Cynllun yn Talu Gorfodol ar ei ffurflen dreth hunanasesu erbyn 31 Ionawr yn y flwyddyn sy'n dilyn yr un lle cododd y taliad treth, ond nid oes yn rhaid gwneud y cais i'r Gronfa tan 31 Gorffennaf, sef chwe mis yn ddiweddarach, ac yna mae gan y Gronfa tan 14 Chwefror y flwyddyn ganlynol i dalu'r dreth. Gall dyddiad cau gwahanol ar gyfer Cynllun yn Talu Gorfodol fod yn berthnasol os bydd y Gronfa yn rhoi gwybod i aelod am newid i Gyfnod Mewnbwn Pensiwn cynharach. Pan fydd hyn yn berthnasol, bydd y Gronfa yn rhoi gwybod i aelod y cynllun am y dyddiad cau diwygiedig.

Cynllun yn Talu Gwirfoddol

Mae'r rhestr isod yn dangos rhai sefyllfaoedd posibl lle gallai aelod fod wedi ysgwyddo taliad treth ond nad oes ganddo hawl i Gynllun yn Talu Gorfodol. Yn y sefyllfaoedd hyn gall yr aelod ofyn i'w gynllun ganiatáu cais am Gynllun yn Talu Gwirfoddol, ond nid oes rhaid i'r cynllun gytuno i wneud hyn. Nid bwriad y rhestr hon yw bod yn hollgynhwysol.

- Mae'r aelod yn ddarostyngedig i'r Lwfans Blynnyddol Taprog neu'r Lwfans Blynnyddol Pryniant Arian, ac mae ei Swm Mewnbwn Pensiwn yn y CPLIL yn fwy na'i Lwfans Blynnyddol Taprog/Pryniant Arian ond nid yw'n fwy na'r Lwfans Blynnyddol Safonol.

- Mae'r aelod yn ddarostyngedig i'r Lwfans Blynyddol Taprog neu'r Lwfans Blynyddol Pryniant Arian, ac mae ei Swm Mewnbwn Pensiwn yn y CPLIL yn fwy na'r Lwfans Blynyddol Taprog/Pryniant Arian a'r Lwfans Blynyddol Safonol – mae hawl o ran Cynllun yn Talu Gorfodol, mewn perthynas â'r mewnbwn sy'n uwch na'r Lwfans Blynyddol Safonol, ond nid ar gyfer y mewnbwn rhwng y Lwfans Blynyddol Taprog/Pryniant Arian a'r Lwfans Blynyddol Safonol.
- Roedd yr aelod yn bodloni'r holl feini prawf eraill ar gyfer cais Cynllun yn Talu Gorfodol, ond nid oedd wedi gwneud cais erbyn y dyddiad cau ar 31 Gorffennaf (nac unrhyw ddyddiad cau diwygiedig sy'n berthnasol pan hysbyswyd newid i Gyfnod Mewnbwn Pensiwn cynharach).
- Nid yw lwfans yr aelod yn uwch na'r Lwfans Blynyddol yn seiliedig ar ei fuddion pensiwn yn y CPLIL yng Nghymru a Lloegr, ond gyda'i gilydd ar draws yr holl drefniadau pensiwn mae ei lwfans yn uwch na'r Lwfans Blynyddol ac mae cyfanswm taliad treth yr aelod wrth ystyried mewnbwn o drefniadau eraill yn fwy na £2,000.
- Mae gan yr aelod hawl i drefniant Cynllun yn Talu Gorfodol mewn perthynas â mewnbwn pensiwn yn y CPLIL yng Nghymru a Lloegr, ond mae ganddo hefyd daliad treth sy'n ymwneud â mewnbwn mewn trefniant pensiwn ar wahân ac mae am ddefnyddio'r trefniant Cynllun yn Talu Gwirfoddol o'r Gronfa i dalu am hyn hefyd.
- Mae buddion ymddeoliad llawn yr aelod yn cael eu talu.

Nid oes terfyn amser wedi'i bennu yn y ddeddfwriaeth ar gyfer cais am Gynllun yn Talu Gwirfoddol (os caniateir hynny), ond dylai aelodau nodi, os na thelir y dreth erbyn 31 Ionawr yn y flwyddyn ar ôl y flwyddyn y mae'r taliad treth yn codi (h.y. 31 Ionawr 2024 am daliad treth sy'n codi ym mlwyddyn 2022/23), bydd llog a chosbau taliadau hwyr yn ddyledus. Nid yw llog a chosbau taliadau hwyr yn berthnasol i daliadau treth sy'n cael eu setlo gan Gynllun yn Talu Gorfodol, gan dybio bod yr aelod yn darparu'r hysbysiadau priodol i CThEF drwy hunanasesiad neu fel arall, oherwydd yn yr amgylchiadau hyn mae'r aelod a'r Awdurdod Gweinyddu yn atebol ar y cyd ac yn unigol am dalu'r taliad treth, ond mae'r aelod yn dal i fod yn atebol yn unig am unrhyw dreth sy'n ddyledus nad yw'n dod o dan drefniant Cynllun yn Talu Gorfodol.

Enghreifftiau o Lwfans Blynyddol Taprog

- Swm Mewnbwn Pensiwn yr Aelod yw £80,000 ac mae'n destun i lwfans blynyddol taprog o £10,000. Y taliad treth fydd £28,000 a chymryd ei fod yn drethdalwr ar gyfradd o 40% a heb ddim byd ar gael i'w gario ymlaen. Mae Cynllun yn Talu Gorfodol yn berthnasol i £8,000 yn unig o'r taliad treth hwnnw (mewn perthynas

â'r mewnbwn sy'n fwy na £60,000). Byddai angen i'r £20,000 sy'n weddill o'r taliad treth gael ei setlo gan yr aelod yn uniongyrchol gyda CThEF, oni bai bod trefniant Cynllun yn Talu Gwirfoddol yn cael ei gytuno gyda'r Gronfa.

- Mewnbwn pensiwn yr Aelod yw £39,000 ac mae'n destun Lwfans Blynyddol Taprog o £10,000. Ei daliad treth fydd £11,600 a chymryd ei fod yn drethdalwr ar gyfradd o 40% a heb ddim byd ar gael i'w gario ymlaen. Nid yw hyn yn gymwys ar gyfer Cynllun yn Talu Gorfodol, gan fod y mewnbwn pensiwn yn llai na'r Lwfans Blynyddol Safonol o £60,000, felly byddai angen i'r aelod setlo'n uniongyrchol gyda CThEF, oni bai bod trefniant Cynllun yn Talu Gwirfoddol yn cael ei gytuno gyda'r Gronfa.

Dylid nodi mai cyfrifoldeb yr aelod yw hysbysu'r Gronfa os yw'n destun Lwfans Blynyddol Taprog a swm y dreth sy'n ddyledus. Ni all y Gronfa gyfrifo hyn gan nad oes ganddi fanylion am gyfanswm yr incwm trethadwy.

Polisi Cronfa Bensiwn

Bydd y Gronfa yn derbyn ceisiadau am Gynllun yn Talu Gwirfoddol o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Mae aelod yn ddarostyngedig i'r Lwfans Blynyddol Taprog neu'r Lwfans Blynyddol Pryniant Arian, â thaliad treth o fwy na £2,000 sy'n ymwneud â mewnbwn yn y Gronfa Bensiwn, a cheir y cais di-alw'n ôl erbyn 30 Tachwedd ar ôl diwedd y flwyddyn dreth y mae'r mewnbwn yn digwydd ynddi (h.y. 30 Tachwedd 2023 ar gyfer mewnbwn yn y flwyddyn 2022/23).
- Mae aelod yn bodloni'r holl feini prawf ar gyfer Cynllun yn Talu Gorfodol, ond nid oedd yn gallu bodloni'r dyddiad cau, sef 31 Gorffennaf, oherwydd camgymeriad gweinyddol neu anwaith gan y Gronfa Bensiwn (h.y. ni chafodd yr aelod wybod am ei fewnbwn pensiwn mewn pryd er mwyn iddo fodloni'r dyddiad cau). Yn yr amgylchiadau hyn, dylid gwneud cais am Gynllun yn Talu Gwirfoddol o fewn 2 fis ar ôl i'r aelod gael hysbysiad o'u mewnbwn pensiwn.
- Hysbysir aelod am newid i Gyfnod Mewnbwn Pensiwn cynharach ond nid yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer Cynllun yn Talu Gorfodol. Yn yr amgylchiadau hyn, dylid gwneud cais am Gynllun yn Talu Gwirfoddol o fewn 2 fis ar ôl i'r aelod gael hysbysiad o'i fewnbwn pensiwn diwygiedig.

Ni fydd y Gronfa yn derbyn ceisiadau am Gynllun yn Talu Gwirfoddol o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Mae taliad treth yr aelod sy'n ymwneud â mewnbwn pensiwn yn y CPLIL yng Nghymru a Lloegr yn llai na £2,000, ond mae wedi gwneud cais am Gynllun yn

Talu Gwirfoddol oherwydd bod cyfanswm ei daliad treth yn fwy na £2,000 wrth ystyried mewnbwn o drefniadau eraill.

- Mae gan yr aelod hawl i drefniant Cynllun yn Talu Gorfodol mewn perthynas â mewnbwn pensiwn yn y CPLIL yng Nghymru a Lloegr, ond mae hefyd wedi gofyn i'r Gronfa dalu taliad treth yn ymwneud â mewnbwn mewn trefniant pensiwn ar wahân.
- Nid oedd aelod wedi bodloni'r dyddiad cau ar 31 Gorffennaf ar gyfer gwneud cais am Gynllun yn Talu Gorfodol (nac unrhyw ddyddiad cau diweddarach a allai fod yn berthnasol pan hysbyswyd newid i Gyfnod Mewnbwn Pensiwn cynharach) ac nid oedd y methiant hwn i fodloni'r dyddiad cau oherwydd unrhyw wall gweinyddol neu anwaith gan y Gronfa Bensiwn.
- Mae holl fuddion ymddeoliad aelod wedi dechrau cael eu talu.

Bydd cais am Gynllun yn Talu Gwirfoddol mewn unrhyw sefyllfa arall yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau. Ar ôl derbyn cais am Gynllun yn Talu Gwirfoddol, bydd buddion yr aelod yn cael eu lleihau yn ôl swm sy'n cyfateb i'r taliad treth a dalwyd gan y Gronfa, gan ddefnyddio'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth.

Aelodau sy'n agosáu at ymddeol

Mae sefyllfaoedd lle gall aelod dorri'r Lwfans Blynyddol yn y Cyfnod Mewnbwn Pensiwn y mae'n ymddeol ynddo, hyd yn oed os yw'n ymddeol yn gymharol agos at ddechrau'r flwyddyn dreth. Gallai hyn fod, er enghraifft, lle bu ychwanegiad ar sail afiechyd (ac ni wnaeth yr aelod fodloni'r cyflwr salwch difrifol o dan A229(4) Deddf Cyllid 2004) neu godiad cyflog, bonws neu ychwanegiad gwasanaeth mawr cyn neu ar ôl ymddeol. Os bydd aelod yn torri'r Lwfans Blynyddol yn y flwyddyn dreth y mae'n derbyn ei fuddion ymddeoliad terfynol, dim ond Cynllun yn Talu Gorfodol y gellir ei ddefnyddio os yw'r cais yn cael ei wneud a'i brosesu cyn i'r buddion gael eu talu (neu eu "crisialu"). Fel arall, bydd yn rhaid i aelodau dalu'r taliad treth yn uniongyrchol gan na fydd y Gronfa yn derbyn cais am Gynllun yn Talu Gwirfoddol unwaith bydd y buddion yn cael eu talu. Gall aelodau yn y sefyllfa hon ddewis talu'r taliad treth gan ddefnyddio unrhyw gyfandaliad sy'n daladwy ar eu hymddeoliad. Dylai aelodau sy'n ymddeol rhwng Ebrill a Hydref hefyd sicrhau eu bod yn cadarnhau a oedd unrhyw doriad yn y Cyfnod Mewnbwn Pensiwn blaenorol cyn i'w buddion gael eu cwblhau, gan y byddant yn ymddeol cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Datganiad Cynilion Pensiwn. Unwaith eto, mae'n rhaid gwneud cais am Gynllun yn Talu mewn perthynas â'r Cyfnod Mewnbwn Pensiwn blaenorol cyn i'r buddion gael eu crisialu. Bydd y Gronfa'n cyhoeddi datganiad cynilion

pensiwn unigol i'r aelodau gweithredol hynny sy'n dod yn aelodau sy'n bensiynwyr yn ystod y Cyfnod Mewnbwn Pensiwn ac mae eu lwfans yn uwch na'r Lwfans Blynnyddol Safonol. Bydd hyn yn cael ei ddarparu pan fydd y buddion ymddeoliad yn cael eu hysbysu yn hytrach nag o dan yr amserlenni arferol. Mae hyn yn rhoi'r amser i'r aelod benderfynu a yw trefniant Cynllun yn Talu Gorfodol yn berthnasol a/neu a yw'n dymuno gwneud cais am Gynllun yn Talu Gorfodol neu Wirfoddol. Os yw'r aelod yn dymuno defnyddio Cynllun yn Talu, dylai gysylltu â'r Gronfa Bensiwn ymhell cyn y dyddiad ymddeol fel y gellir cyfrifo a chymhwyso'r gostyngiad perthnasol cyn i'r buddion gael eu talu. Dylid nodi mai cyfrifoldeb yr aelod yw hysbysu'r Gronfa yn ystod y cyfnod hwn os yw'n destun Lwfans Blynnyddol Taprog a swm y dreth sy'n ddyledus. Ni all y Gronfa gyfrifo hyn gan nad oes ganddi fanylion am gyfanswm yr incwm trethadwy.

Costau

Bydd yr holl gostau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Polisi hwn yn cael eu talu'n uniongyrchol gan y Gronfa Bensiwn. Dylai talu'r taliad treth fod yn niwtral o ran cost i'r Gronfa, gan fod Adran Actiwari'r Llywodraeth wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer cyfrifo'r gostyngiad i fuddion yr aelod a ddylai sicrhau nad yw'r Gronfa ar ei cholled. Fodd bynnag, bydd y Gronfa yn wynebu costau gweinyddu am yr amser a gymerir i ddelio â cheisiadau gan aelodau ac i dalu'r dreth sy'n ddyledus i CThEF. Ystyriwyd a ddylid codi tâl gweinyddol ar aelodau sy'n dymuno defnyddio Cynllun yn Talu Gwirfoddol, ond oherwydd y niferoedd isel y disgwylir iddynt ddewis yr opsiwn hwn, penderfynwyd peidio â chodi tâl ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cael ei adolygu pe bai'n dod yn hysbys bod gweithredu'r polisi hwn yn feichus yn weinyddol.

Cymeradwyo, Adolygu ac Ymgynghori

Cymeradwywyd y Polisi Cynllun yn Talu Gwirfoddol hwn gan y pwyllgor pensiynau ym mis Mawrth 2025. Bydd y Polisi hwn yn cael ei adolygu bob 3 blynedd heblaw bod deddfwriaeth yn newid.